Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Medr/2026/31: Atodiad B

# Llwybr Prentisiaeth Cymru mewn Gwaith Coed ar y Safle

***Fersiwn ddrafft ar gyfer yr ymgynghoriad***

Mae cynnwys y Llwybr hwn wedi cael ei gytuno gan CITB. Dyma'r unig Lwybr Prentisiaeth yn y sector Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladau a gymeradwywyd i'w ddefnyddio yng Nghymru sy'n gymwys i gael cyllid gan Medr.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English
www.medr.cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Cynnwys


Cynnwys y Rhaglen Dysgu ........ 3
Gofynion Mynediad ........ 3
Rhaglen (Rhaglenni) Dysgu Llwybr Prentisiaeth ........ 3
Lefel 2: Gwaith Coed ar y Safle ........ 3
Swyddi ........ 4
Datblygiad ........ 5
Cydraddoldeb ac amrywiaeth ........ 6
Cyfrifoldebau a Hawliau Cyflogaeth (ERR) ........ 6
Cyfrifoldebau ........ 7
Atodiad 1 ........ 7

## Cynnwys y Rhaglen Dysgu

Bydd darpariaeth y Rhaglen Ddysgu yn cynnwys tair elfen orfodol:
- Cymwysterau
- Sgiliau Hanfodol.
- Hyfforddiant ar/oddi ar swydd

Cyfanswm yr isafswm o werth credyd sydd ei angen ar gyfer Llwybr Lefel 2 (Gwaith Coed ar y Safle) yw 47 credyd.

## Gofynion Mynediad

Mae'r brentisiaeth hon yn addas i ddysgwyr sy'n:
- Yn 16+ oed ac yn meddu ar un neu fwy o'r canlynol:
- Yn meddu ar 3 blynedd neu fwy o gyflogaeth yn y grefft y bydd y brentisiaeth yn cael ei gwneud ynddi a hynny'n gallu cael ei wirhau.
- TGAU gradd G neu uwch yn unrhyw ddau o'r canlynol: - Saesneg, mathemateg a naill ai gwyddoniaeth neu bwnc technegol.
- Sgiliau Hanfodol Cymru neu Sgiliau Allweddol mewn Cyfathrebu a Chymhwyso Rhif ar Lefel 1.
- Diploma neu Dystysgrif Estynedig Lefel 1 mewn Sgiliau Adeiladu (6219-06 neu 6219-07).
- Gradd G yng nghymhwyster TGAU Amgylchedd Adeiledig CBAC.
- ylfaen City & Guilds mewn Peirianneg Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladau Lefel 2.
- Dilyniant City & Guilds mewn Adeiladu Lefel 2 (Yn y grefft sy'n berthnasol i'r brentisiaeth).

Gall dysgwyr profiadol fel y'u diffinnir uchod fod â nodweddion neu gyflawniadau y tu hwnt i ennill cymwysterau y dylid eu hystyried hefyd. Ni fydd rhaid iddynt ennill un o'r cymwysterau eraill a restrir.

## Rhaglen (Rhaglenni) Dysgu Llwybr Prentisiaeth

### Lefel 2: Gwaith Coed ar y Safle

#### Cymwysterau

Rhaid i gyfranogwyr gyflawni'r cymhwyster/cymwysterau cymhwysedd a gwybodaeth canlynol.

| Corff Dyfarnu | Rhif cymhwyster: | Gwerth credyd | Cyfanswm amser y cymhwyster | Cymhwysedd / Gwybodaeth / Cyfuniad | Iaith (ieithoedd) Asesu Cymhwyster |
|---|---|---|---|---|---|
| City & Guilds | C00/5389/3 | 47 | 476 | Cyfun | Cymraeg a Saesneg |

### Sgiliau Hanfodol Cymru (ESW)

Ieithoedd asesu cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru yw Cymraeg-Saesneg.

| Lefel 2: Gwaith Saer ar Safle Adeiladu | Lefel | Isafswm Gwerth Credyd |
|---|---|---|
| Cyfathrebu | 1 | 6 |
| Cymhwyso Rhif | 1 | 6 |

Gellir dod o hyd i ddirprwyon ar gyfer Sgiliau Hanfodol Cymru ar bwynt 24 dogfen fframwaith SASW.

### Hyfforddiant mewn swydd / i ffwrdd o'r gwaith

| Llwybr | Isafswm Oriau Hyfforddiant Mewn Swydd | Isafswm oriau hyfforddi i ffwrdd o'r gwaith |
|---|---|---|
| Lefel 2: Gwaith Coed ar y Safle | 1540 | 480 |

Hyd disgwyliedig y Brentisiaeth Gwaith Saer ar Safle Adeiladu i newydd-ddyfodiaid fydd **2 flynedd**.

**Canllaw yn unig** yw'r ffigyrau uchod a gallant fod yn wahanol ar gyfer gweithwyr profiadol/hŷn yn dibynnu ar faint/natur y profiad perthnasol, ac wedi'u lleihau'n sylweddol ar gyfer y rheini sy'n symud ymlaen o gymwysterau cysylltiedig fel y Cymhwyster Dilyniant.

Cyfanswm nifer yr oriau hyfforddi – sy'n cynnwys dysgu yn y gwaith a dysgu i ffwrdd o'r gwaith – ar gyfer y Llwybr hwn yw 2020 o oriau hyfforddi.

Manylion Sgiliau Hanfodol yn y Gwaith/i Ffwrdd o'r Gwaith (Isafswm Credyd ac Oriau)

- 6 chredyd / 45 GLH Lefel 1 Cyfathrebu Sgiliau Hanfodol Cymru
- 6 chredyd / 45 GLH Lefel 1 Cymhwyso Rhif Sgiliau Hanfodol Cymru

## Swyddi

Mae'r Fframwaith hwn yn nodi'r safonau a'r meini prawf ar gyfer y Brentisiaeth Lefel 2 mewn Gwaith Coed ar y Safle. Bydd cyflawni holl gydrannau'r Fframwaith hwn yn llwyddiannus yn arwain at ddyfarnu cymhwyster Lefel 2 a chydnabyddiaeth fel Saer Coed cymwys o fewn y sector.

Bydd Dyfarnu'r Cymhwyster hwn yn galluogi'r dysgwr i ymgeisio am Gerdyn gweithiwr crefftus Glas CSCS.

Mae gan y fframwaith hwn un llwybr:

- **Gwaith Coed ar y Safle**

Bydd y cymhwyster yn galluogi dysgwyr i gynllunio a chyflawni prosiectau gwaith saer ar safle, yn unol â safonau galwedigaethol a gydnabyddir yn genedlaethol, cyn adolygu ansawdd allbynnau'r prosiectau.

Hefyd, dylai'r Prentis allu:

- dehongli gwybodaeth, a dethol a defnyddio adnoddau
- mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol
- gosod cydrannau'r gosodiad cyntaf
- gosod cydrannau'r ail osodiad
- codi cydrannau strwythurol creiddiol.

Drwy gydol y broses Brentisiaeth dylai'r Prentis, o leiaf, ddatblygu ac arddangos yr ymddygiadau sy'n dangos ei fod yn gyson:

1. Pendant
2. Hyderus
3. Wedi gwisgo'n addas
4. Empathi
5. Teg
6. Gonest
7. Rhagweithiol
8. Cynhyrchiol
9. Prydlon
10. Dibynadwy
11. Parchus (o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad)

## Datblygiad

Bydd cwblhau'r Brentisiaeth Lefel 2 mewn Gwaith Saer ar Safle yn arfogi prentis â'r canlynol:

- gwybodaeth a dealltwriaeth am y sector adeiladu yng Nghymru, gan gynnwys egwyddorion amgylcheddol perthnasol
- gwybodaeth a dealltwriaeth alwedigaethol am waith saer ar safle, gan gynnwys yr offer, y technegau, y deunyddiau a'r technolegau a ddefnyddir yn y grefft
- sgiliau ar gyfer gweithio'n ddiogel ac yn gynhyrchiol yn y sector adeiladu
- gallu i gynllunio gwaith yn effeithiol i gwblhau tasgau gwaith saer ar safle mewn amgylchedd gwaith
- perfformiad galwedigaethol mewn gwaith saer ar safle
- gallu i fynd ati'n effeithiol i adolygu allbynnau eu gwaith saer ar safle a gwblhawyd.

Yn dilyn ei gwblhau, bydd y cymhwyster, ynghyd â chadarnhad cyflogwr o hyfedredd galwedigaethol, yn rhoi i ddysgwyr y sgiliau a'r wybodaeth sy'n ofynnol er mwyn i'r dysgwr fod yn gallu gweithio mewn gwaith saer ar safle ledled y DU. Gall dysgwyr gamu ymlaen i gymhwyster Gwaith Saer ar Safle Lefel 3 hefyd.

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae'n bwysig bod Llwybrau prentisiaeth yn gynhwysol ac yn gallu dangos dull gweithredol o ddynodi a dileu rhwystrau i fynediad a datblygiad. Dylai llwybrau hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig a’r bobl hynny nad ydynt yn gwneud hynny fel y dynodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Y nodweddion gwarchodedig a ddynodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth. Mae priodas a phartneriaeth sifil hefyd wedi’u cynnwys, er, dim ond o ran y gofyniad i ddileu gwahaniaethu mewn cyflogaeth.

RHAID i ddarparwyr hyfforddiant a chyflogwyr hefyd gydymffurfio â'r ddyletswydd arall o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i sicrhau na wahaniaethir yn erbyn ymgeiswyr o ran mynediad i'r diwydiant ar sail y naw nodwedd warchodedig hynny.

Er nad yw'r diwydiant adeiladu, yn hanesyddol, wedi bod yn ddewis gyrfa draddodiadol i fenywod. Mae hyn bellach wedi newid, ac mae menywod yn cael eu cefnogi’n well ac yn gweithio’n llwyddiannus yn y diwydiant.

Mae'r cyrff sectoraidd yn gweithio ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i ddynodi a mynd i'r afael â materion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth. Cefnogir y gwaith hwn gan lywodraeth leol/cenedlaethol, cyrff/asiantaethau anllywodraethol ac Undebau perthnasol.

Mae’n ofynnol bod recriwtio prentisiaid yn agored ac yn deg i bawb sy’n bodloni’r meini prawf dethol, waeth beth fo’u rhyw, tarddiad ethnig, crefydd/cred, cyfeiriadedd rhywiol neu anabledd.

Rhaid i bob partner sy’n ymwneud â darparu’r brentisiaeth a chyflogwyr fod yn ymrwymedig i bolisi cyfle cyfartal ac mae’n rhaid iddynt fod â pholisi a gweithdrefn cyfle cyfartal ffurfiol ar waith.

Rhaid i gyflogwyr/darparwyr allu dangos nad oes unrhyw arferion gwahaniaethol amlwg neu gudd wrth ddethol a chyflogi. Rhaid i bob gweithgaredd hybu, dethol a hyfforddi gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol megis Deddf Cydraddoldeb 2010.

Bydd darparwyr yn monitro arferion a gweithdrefnau cyfle cyfartal yn eu sefydliad eu hunain ac yn cymryd camau cadarnhaol pan fo angen. Argymhellir hefyd bod cyflogwyr/darparwyr yn cynnal cyfweliad ymadael os yw’r prentis yn gadael y rhaglen cyn ei chwblhau.

## Cyfrifoldebau a Hawliau Cyflogaeth (ERR)

Nid yw Cyfrifoldebau a Hawliau Cyflogaeth (ERR) bellach yn orfodol.  Ond argymhellir bod pob prentis (yn enwedig y grŵp blwyddyn 16 -18) yn cael rhaglen cynefino’r cwmni.

## Cyfrifoldebau

Cyfrifoldeb y Darparwr Hyfforddiant a'r Cyflogwr yw sicrhau bod gofynion y Llwybr hwn yn cael eu cyflawni’n unol ag Arweiniad Prentisiaethau Llywodraeth Cymru/Medr.

Gellir cael mwy o wybodaeth gan: Medr

# Atodiad 1

### Y berthynas rhwng cymwysterau cymhwysedd a gwybodaeth

Cymhwyster cyfunol yw hwn sy’n ateb y gofynion o ran gwybodaeth a chymhwysedd gydag isafswm o 360 o gredydau fel a nodir ym manyleb deilliannau’r llwybr dysgu a sgiliau prentisiaeth adeiladu.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government